

# Polisi'r Gymraeg a Diwylliant Cymru

Bijou Day Nursery & Crèche, Y Bont-faen

**Perchennog polisi:** Nursery Manager / Rheolwr y Feithrinfa

**Fersiwn:** 2.0

**Adolygwyd ddiwethaf:** June 2026 / Mehefin 2026

**Adolygiad nesaf:** June 2027 / Mehefin 2027

**Cymeradwywyd gan:** Samantha Rennison, Responsible Individual / Unigolyn Cyfrifol

## 1. Datganiad Polisi

Mae Bijou Day Nursery & Crèche wedi ymrwmo i hyrwyddo'r Gymraeg a dathlu diwylliant Cymru. Fel meithrinfa sy'n gweithredu yng Nghymru, rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Cymraeg 2050) ac i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol yn unol â fframwaith Mwy Na Geiriau.

Mae'r polisi hwn yn cefnogi Cwricwlwm Cymru (Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Safonau Gofynnol Cenedlaethol AGC, a fframwaith strategol Mwy Na Geiriau.

## 2. Y Cynnig Rhagweithiol

Rydym yn cynnig darpariaeth Gymraeg yn rhagweithiol heb i deuluoedd orfod gofyn amdani:

- Cyfarch teuluoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Polisiâu, dogfennau allweddol a'n gwefan ar gael yn ddwyieithog
- Arwyddion, arddangosfeydd a labeli drwy'r feithrinfa yn ddwyieithog
- Cefnogaeth i deuluoedd Cymraeg eu hiaith yn eu dewis iaith
- Staff yn cael eu hannog i ddefnyddio Cymraeg achlysurol drwy gydol y dydd

## 3. Y Gymraeg yn y Cwricwlwm

Mae ein cynllunio yn dilyn Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu o fewn Cwricwlwm Cymru. Mae sgiliau Cymraeg yn cael eu datblygu ar draws pob maes.

### 3.1 Arfer Dyddiol

- Caneuon, rhigymau a straeon Cymraeg yn rhan o amser cylch ac adegau pontio dyddiol
- Cymraeg achlysurol yn cael ei ddefnyddio gan yr holl staff — cyfarchion, cyfarwyddiadau, canmoliaeth
- Staff yn defnyddio'r Continwwm Patrymau Iaith Gymraeg fel fframwaith
- Adnoddau dwyieithog ar gael ym mhob ystafell
- Dathlu digwyddiadau diwylliannol a diwrnodau cenedlaethol

### 3.2 Cynllunio

- Mae cynllunio wythnosol yn cynnwys o leiaf un gweithgaredd Cymraeg penodol
- Mae amser cylch diwylliannol wedi'i neilltuo ar gyfer trochi yn y Gymraeg
- Monitrir sgiliau yn erbyn camau cynnydd Cwricwlwm Cymru

## 4. Darparu ar gyfer Ystod o Alluoedd

---

- Dathlir plant Cymraeg eu hiaith gyntaf fel modelau rôl
- Cefnogir dechreuwyr gyda chiwiau gweledol, ailadrodd, a chanmoliaeth
- Siarad Cymraeg yw'r prif ffocws; darperir cyfleoedd darllen ac ysgrifennu
- Tracio cynnydd plant yn y Gymraeg drwy fframwaith Cwricwlwm Cymru

## 5. Yr Amgylchedd

---

Fel meithrinfa wedi'i hysbrydoli gan Montessori, mae adnoddau dwyieithog wedi'u hymgorffori'n naturiol ar draws pob ystafell, gyda labeli, cerddoriaeth Gymraeg, a llyfrau Cymraeg ym mhob cornel darllen.

## 6. Datblygiad Staff

---

- Staff Cymraeg eu hiaith yn cydweithio ar ynganiad a sillafu cywir
- Anogir yr holl staff i ddatblygu sgiliau Cymraeg drwy DPP — cyrsiau drwy "Dysgu Cymraeg"
- Trafodir ynganiad a chynllunio Cymraeg mewn cyfarfodydd staff
- Darperir hyfforddiant mewnol pan fydd canllawiau'r llywodraeth yn newid

## 7. Partneriaeth â Rhieni

---

- Rhannu caneuon, geiriau ac ymadroddion Cymraeg drwy ap FAMILY
- Darparu adnoddau dwyieithog i fynd adref
- Dathlu digwyddiadau diwylliannol Cymreig gyda theuluoedd

## 8. Adolygu

---

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol. Os bydd canllawiau'r llywodraeth yn newid, diwygir y polisi ar adeg y newid.

## 9. Polisiâu Cysylltiedig

---

- Polisi Cynhwysiant a Thegwch
- Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Polisi Partneriaeth